

Canllawiau ynghylch Dangosfwrdd MyView

Argraffu Slipiau Cyflog


Adolygwyd Gorffennaf 2021

sirgar.llyw.cymru


Argraffu Slipiau Cyflog oddi ar MyView

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ceisio lleihau ei ôl troed carbon a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu dogfennau cyflog, felly anogir ein staff i ddefnyddio ein swyddogaethau ar-lein i dderbyn a gweld eu dogfennau cyflog. Bydd y canllaw hwn yn eich helpu i argraffu pob math o ddogfennau oddi ar MyView. Yn hytrach nag argraffu copi papur, argraffwch eich dogfennau cyflog i gael copi electronig (PDF).


I argraffu copi electronig o'ch slip cyflog, **cliciwch** ar y slip cyflog i'w agor gan ddefnyddio'r teclyn Dogfennau Cyflog.



Unwaith y bydd eich slip cyflog wedi agor, ewch i waelod y ddogfen, ac yna **cliciwch** ar y botwm Argraffu ar ochr dde'r sgrin.




Bydd ffenestr yn agor. I argraffu copi electronig (PDF) o'ch slip cyflog, sgroliwch drwy'r rhestr a **dewiswch** 'Microsoft print to PDF' o'r gwymplen ac yna **cliciwch ar Argraffu**.



Bydd ffenestr yn agor, lle gallwch ddewis eich argraffydd cysylltiedig neu os ydych am gadw copi electronig o'ch dogfen gyflog, sgroliwch drwy'r rhestr o'r peiriannau argraffu sydd ar gael, cliciwch ar **'Microsoft print to PDF'** yn y gwymplen ac yna cliciwch ar **'Print'**.


Os ydych wedi dewis yr opsiwn PDF bydd ffenestr arall yn agor a fydd yn gofyn ichi lle rydych am gadw eich dogfen gyflog. Dewiswch ble rydych am ei chadw, rhwng enw priodol i'r ddogfen gyflog a chliciwch ar **Cadw**.



I argraffu copi papur o'ch slip cyflog gallwch ddewis unrhyw argraffydd sydd eisoes wedi'i gysylltu â'ch dyfais.

Noder: Cofiwch gasglu eich dogfennau cyflog yn brydlon os ydych yn argraffu ar argraffydd sy'n rhan o rwydwaith (mewn swyddfa). Mae dogfennau a argraffwyd yn aros yng nguhiwiau argraffu'r cyngor am dri diwrnod pan fyddwch yn defnyddio'ch cerdyn adnabod i ddefnyddio'r argraffydd.

Os ydych yn dewis argraffydd arall, byddwch yn ymwybodol y gallai eich gwybodaeth bersonol gael ei gwneud yn gyhoeddus, ac ni allwn sicrhau ei chyfrinachedd.



Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â [ni drwy anfon neges e-bost at resourcelink@sirgar.gov.uk](mailto:ni.drwy.anfon.neges.e-bost@resourcelink@sirgar.gov.uk)